

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)

ARCHWILIAD CYHOEDDUS:

Sesiwn gwrandawriad 13 Sipsiwn a Theithwyr



1] Materion i'w hystyried

Pwynt Gweithredu S13/PG3

Polisi TAI 13

Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i Bolisi TAI 13 i:

- Sicrhau bod y fersiwn Saesneg o'r maen prawf ychwanegol arfaethedig yn gyson a'r derminoleg yn NCT 15, h.y. cyfeirio at 'highly vulnerable development';
- Ddiwygio maen prawf 1 trwy beidio cyfeirio at 'gwirioneddol';
- Diwygio maen prawf 2 i sicrhau ei fod yn fwy clir ac yn ymarferol, gan adlewyrchu canllawiau cenedlaethol sydd ddim yn disgwyl y gall safleoedd gwrdd â phob un maen prawf;
- Sicrhau ei fod yn cyfarch y posibilrwydd y gallai angen godi yn ystod oes y Cynllun ar gyfer safle tramwy.

Pwynt Gweithredu S13/PG4

Cyffredinol

Golygu'r eirfa i sicrhau bod pob rhan berthnasol yn cyfeirio at (i) y ffaith bod y Cynllun yn cyfarch yr angen am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr trwy gydol oes y Cynllun, a (ii) at Sipsiwn a Theithwyr ar wahân i pan mae safle yn cael ei ddynodi neu ei warchod yn benodol ar gyfer un ai Sipsiwn neu Deithwyr.

Pwynt Gweithredu S13/PG5

Safleoedd aros dros dro

Peidio dynodi safleoedd dros dro ar fapiau cynigion y Cynllun.

Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i roi eglurhad cyffredinol ynglŷn â sut fydd y Cynghorau yn mynd ati i gyfarch yr angen sydd wedi cael ei adnabod yn y GTANA a chyfarch eu dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gan gyfeirio yn benodol at safleoedd aros dros dro a thramwy

Pwynt Gweithredu S13/PG6

Polisi TAI 12

Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i (i) beidio cyfeirio at fwriad i ddefnyddio methodoleg asesu safleoedd yng ngeiriad y Polisi, a (ii) i gyfeirio at 10 llain yn hytrach nag 11 ar estyniad i safle Sipsiwn a Theithwyr Llandygai i gyd-fynd a'r GTANA.

2] Ymateb y Cynghorau

Mae'r Cynghorau am gynnig gwelliannau i destun polisiau ac esboniadol (drwy Newidiadau Materion sy'n Codi) fel y nodir yn Atodiad 1 i'r papur hwn mewn ymateb i bwyntiau gweithredu S13/PG3 – S13/PG6 nodir uchod. Cyflwynir y gwelliannau mewn fersiwn cyfansawdd o'r rhan o'r Cynllun sydd yn ymwneud â Llety Sipsiwn a Theithwyr. Bydd rhifau cyfeirnod Newidiadau Materion sy'n codi unigol yn cael ei ddyrannu i'r testun esboniadol a pholisiau perthnasol yn y Gofrestr Newidiadau Materion sy'n codi yn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.